# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 HYDREF, 2021

## Yn NEUADD BENTREF COED-Y-BRYN, COED-Y-BRYN am 7.30 p.m.

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd), Cyng. Mark Davies, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Julie Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng. Robert Jones.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng. Robert Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod mis Medi. | Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Medi. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Archwiliad Allanol – atgoffa Cyng. Maldwyn Lewis i'n diweddaru yn ystod y cyfarfod nesaf ynghylch penodi Mr. Gwyn Jones.<br><br>Cafwyd ymateb gan Tom Delph-Janiurek ynghylch cyflymder y traffig ym mhlwyf Troedyraur. Ni chafwyd ymateb gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion (Eifion Evans) nac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Ellen ap Gwynn). Felly, penderfynwyd diolch i Tom Delph-Janiurek am ei ymateb, ond gan nodi ein bod yn siomedig na chafwyd ymateb gan y Prif Weithredwr nac Arweinydd y Cyngor. Anfonir llythyr ymlaen at Tom Delph-Janiurek, Eifion Evans ac Ellen ap Gwynn. | **Clerc** | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Sharon Thomas bod cofnodion cyfarfod mis Medi yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Julie Davies. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Dim adroddiad gan nad oedd Cyng. Maldwyn Lewis yn bresennol. | | |
| 7. | Penodi Cynghorydd newydd | Cafwyd un llythyr cais gan Mrs. Siân Williams, Awel Cynllo, Coed-y-bryn, Llandysul. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno ei bod yn ymgeisydd addas, felly bydd y Clerc yn cysylltu â hi ac yn anfon y ffurflenni gwybodaeth perthnasol i Gynghorwyr Newydd ymlaen ati, gan roi gwybod dyddiad y cyfarfod nesaf iddi hefyd, a bydd yn anfon copi o'r Agenda a'r Cofnodion ymlaen ati hefyd maes o law. | **Clerc** | |
| 8. | Gohebiaeth | Anfonwyd rhestr o'r holl gyrsiau ymlaen at yr holl Gynghorwyr mewn neges e-bost. | | |

Cafwyd neges e-bost yn hysbysu'r Clerc bod y lle storio negeseuon e-bost ac ati bron yn llawn, ac y byddai'n costio £60 y flwyddyn a TAW i gael gwerth 50GB o le storio ychwanegol. Mae'r lle storio ychwanegol hwn yn hanfodol ac ar ôl trafodaeth, cafwyd cynnig gan Gyng. Mark Davies, eiliwyd y cynnig gan Gyng. Ceri Jones a chytunodd pawb a oedd yn bresennol y dylid cael y lle storio ychwanegol. Bydd y clerc yn cysylltu â Lesley i drefnu hyn a bod anfoneb yn cael ei hanfon ymlaen erbyn y cyfarfod nesaf. **Clerc**

Cafwyd gwahoddiad i 2 gynrychiolydd fynychu cyfarfod Zoom ar 23 Tachwedd, 2021, am Gyfarfod rhwng Cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned. Roedd Cynghorwyr Mark Davies ac Emyr Jones yn fodlon mynychu'r cyfarfod Zoom hwn ar ran Cyngor Cymuned Troedyraur. Anfonir eu henwau a'u cyfeiriadau e-bost ymlaen i'r Cyngor Sir er mwyn gallu anfon gwahoddiad ymlaen iddynt i ymuno â'r cyfarfod Zoom ar 23 Tachwedd, 2021 am 6.30 p.m.
**Clerc**

9. Cynllunio — Ni anfonwyd unrhyw geisiadau cynllunio ymlaen ar gyfer Cyfarfod y mis hwn.

10. Ariannol — **Ymchwiliad Archwilio** – nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth ar gyfer cyfarfod mis Hydref.

**Llofnodwyr NatWest** – Bydd Cyng. Mark Davies yn cynorthwyo Mags i ddiweddaru'r wybodaeth angenrheidiol ar-lein erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

**Taliadau** CThEM - £42.40 (PAYE)
Cyflog y Clerc - £170.00

Bydd Cynghorwyr Roger Davies a Maldwyn Lewis yn llofnodi'r sieciau uchod. **Clerc**

Atgoffwyd y Cynghorwyr a oedd yn bresennol gan Gyng. Mark Davies bod angen diweddaru'r Pwynt Graddfa ar gyfer cyflogres y Clerc. Bydd Cyng. Mark Davies yn holi Ashmole & Co. am hyn, gan adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Tachwedd. **Cyng Mark Davies**

**Cynllunio Cyllideb** – Gofynnir i Gynghorwyr gynnal ymchwil am brisiau a gwneud argymhellion am oleuadau ar Goed Nadolig y tu allan erbyn cyfarfod mis Tachwedd, yn barod er mwyn trefnu coed a goleuadau yn y pentrefi fel y gwnaethpwyd y llynedd. Dangosir coed yn y pentrefi o ddechrau mis Rhagfyr.

**Cadwyn y Cadeirydd** – mae angen archebu 2 ddolen gan y Gemyddion yn Aberystwyth, a'u hychwanegu i'r gadwyn. D. Mark Davies 2020-2021 ar un ddolen ac Emyr Wyn Jones 2021-2022 ar yr ail ddolen. **Clerc**

11. Materion Ardal — Nid oedd unrhyw faterion ardal i'w hadrodd yn ystod y cyfarfod hwn.

13. Cyfarfod — Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 2 TACHWEDD am

| | | |
|---|---|---|
| | Nesaf. | 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn os bydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu. Os bydd y sefyllfa yn newid, trefnir cyfarfod Zoom ar yr un dyddiad ac ar yr un amser.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes i'w drafod, caewyd y cyfarfod gan y Cadeirydd am 8.45 p.m. |
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth – Ymgynghoriad am drethi lleol – ail gartrefi a llety Hunanarlwyo.<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Cynllunio'r gyllideb<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 2 TACHWEDD, 2021** am **7.30 p.m.**<br>yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn. (Gallai'r lleoliad newid os bydd y sefyllfa o ran Covid yn newid). |